'Yr oedd tyrfa fawr yn ei ganlyn ac yn gwasgu arno.'

Gweddi
Arglwydd, mae mor hawdd bod yn rhan o'r dyrfa,
yn dilyn tu ôl i eraill,
heb wybod beth sy'n digwydd yn y tu blaen.
Rho i ni'r gallu i symud trwy'r dorf brysur,
a'r dewrder i'th gyffwrdd di,
er mwyn derbyn profiad sy'n newid ein bywydau.
Ond gofynnwn hefyd i ti aros a throi atom,
a'n galw wrth ein henwau,
a dweud y geiriau hynny sy'n rhoi gwybod i ni
ein bod yn derbyn maddeuant llwyr ac yn cael ein caru'n ddiamod. **Amen**

Marc 5:21 - 34
Wedi i Iesu groesi'n ôl yn y cwch i'r ochr arall, daeth tyrfa fawr ynghyd ato, ac yr oedd ar lan y môr. Daeth un o arweinwyr y synagog, o'r enw Jairus, a phan welodd ef syrthiodd wrth ei draed ac ymbil yn daer arno: "Y mae fy merch fach," meddai, "ar fin marw. Tyrd a rho dy ddwylo arni, iddi gael ei gwella a byw." Ac aeth Iesu ymaith gydag ef.

Yr oedd tyrfa fawr yn ei ganlyn ac yn gwasgu arno. Ac yr oedd yno wraig ac arni waedlif ers deuddeng mlynedd. Yr oedd wedi dioddef yn enbyd dan driniaeth llawer o feddygon, ac wedi gwario'r cwbl oedd ganddi, a heb gael dim lles ond yn hytrach mynd yn waeth. Yr oedd hon wedi clywed am Iesu, a daeth o'r tu ôl iddo yn y dyrfa a chyffwrdd â'i fantell, oherwydd yr oedd hi wedi dweud, "Os cyffyrddaf hyd yn oed â'i ddillad ef, fe gaf fy iachâu." A sychodd llif ei gwaed hi yn y fan, a daeth hithau i wybod yn ei chorff ei bod wedi ei hiachâu o'i chlwyf. Ac ar unwaith deallodd Iesu ynddo'i hun fod y nerth oedd yn tarddu ynddo wedi mynd allan, a throes yng nghanol y dyrfa, a gofyn, "Pwy gyffyrddodd â'm dillad?" Meddai ei ddisgyblion wrtho, "Yr wyt yn gweld y dyrfa'n gwasgu arnat ac eto'n gofyn, 'Pwy

gyffyrddodd â mi?’ ” Ond daliodd ef i edrych o'i gwmpas i weld yr un oedd wedi gwneud hyn. Daeth y wraig, dan grynu yn ei braw, yn gwybod beth oedd wedi digwydd iddi, a syrthiodd o'i flaen ef a dweud wrtho'r holl wir. Dywedodd yntau wrthi hi, “Ferch, y mae dy ffydd wedi dy iachάu di. Dos mewn tangnefedd, a bydd iach o'th glwyf.”

Myfyrdod

Mae Iesu’n cyflawni’r wyrth o iachau’r wraig â gwaedlif tra yr oedd ar ei ffordd i gyflawni gwyrth arall, a gwyrth fwy, sef codi merch Jairus o farw yn fyw! Y mae’r digwyddiad sydd wrth wraidd hanes y wyrth yn ymddangos yn eithaf dibwys - gwraig yn cyffwrdd mantell Iesu wrth i’r dorf wasgu arno. Ond yr oedd hi’n ymestyn ato yn ei hangen, ac fe deimlodd yntau rywbeth yn mynd allan ohono mewn ymateb.

Gwraig ddirmygedig oedd hon ar gyfrif ei chyflwr. Nid oedd i wragedd awdurdod na safle yn y gymdeithas Iddewig, ond fe ystyrid y wraig yma’n halogedig. Roedd wedi ceisio cael iachâd laweroedd o weithiau, ac wedi gwario’r cyfan oedd ganddi ar driniaethau drudfawr, ac wedi dioddef llawer. Ond i ddim diben. Parhau a gwaethygu a wnaeth ei chyflwr hyd nes iddi gyffwrdd ag ymyl gwisg Iesu.

Mae’r hanes yn ddameg, a’r stori yn pwysleisio gallu Iesu i iachau a’r pwysigrwydd o ddod ato. Efallai y teimlwn ninnau na allwn wneud dim mwy yn aml nag ymestyn i gyffwrdd ymyl ei wisg, ond bydd hynny’n ddigon. Ac y mae’n croesawu pawb sy’n dod ar ei ofyn.

Cerydd fyddai’r wraig wedi ei gael gan bawb arall, a fyddai’r un rabi parchus wedi torri gair â hi. Ond y mae Iesu yn mynnu gwybod pwy ydoedd a beth oedd ei hangen, ac y mae’n ei chyfarch yn gyhoeddus gan gydnabod ei ffydd;

‘Ferch, y mae dy ffydd wedi dy iachάu di. Dos mewn tangnefedd, a bydd iach o'th glwyf.’

Yn aml iawn yn y Testament Newydd fe welwn Iesu’n cyffwrdd y cleifion. Mae cyffyrddiad yn bwysig hefyd yn ein profiad

ninnau, er na chawn ni gofleidio, na hyd yn oed ysgwyd llaw, yn ystod y pandemig!

Yn ystod gwasanaeth ordeinio Owain bythefnos yn ôl, gwahoddwyd y gweinidogion oedd yn bresennol i arddodi dwylo arno, sef i roi llaw ar ei ben ag yntau'n penlinio. Dyma'r arwydd Beiblaidd fod rhywun yn cael ei neilltuo i waith arbennig. Nid oedd dim grym na dirgelwch yng nghyffyrddiad y gweinidogion, nac unrhyw hud a lledrith yn perthyn i'r achlysur. Neilltuwyd Owain i weinidogaeth y gair a'r sacramentau y gellir ei olrhain yn ôl i ddyddiau'r Apostolion. A hanfod y weinidogaeth honno o hyd yw bod yn gyfrwng i ddwyn pobl at Iesu. Ef yw'r Meddyg Da, a dyletswydd pawb ohonom yw helpu'n gilydd i ymestyn ato.

Gweddi o ddiolchgarwch

Diolchwn i ti, Arglwydd, fod dy weinidogaeth iachάu wedi codi uwchlaw rhwystrau diwylliannol a chymdeithasol. Gweddïwn am gael gwared â phob rhagfarn, a thros y rhai y mae eu gwaeledd neu eu sefyllfa yn eu pellhau oddi wrth eraill. Gweddïwn yn arbennig dros y rhai sy'n dioddef o salwch meddwl, y digartref, ffoaduriaid a phawb sydd ar gyrion cymdeithas. Boed iddynt hwy, a'r holl greadigaeth, wybod am dy iachάu a'th gariad hael, a boed i ni i gyd ymestyn allan lle mae'n bosibl, yn dy enw. **Amen**

Emyn 765

Dof fel yr wyf, 'does gennyf fi
ond dadlau rhin dy aberth di,
a'th fod yn galw: clyw fy nghri,
'rwy'n dod, Oen Duw 'rwy'n dod.

Dof fel yr wyf, ni thâl parhau
i geisio cuddio unrhyw fai;
ond gwaed y groes all fy nglanhau:
'rwy'n dod, Oen Duw 'rwy'n dod.

Dof fel yr wyf, er ofnau lu,
a gallu y tywyllwch du
yn curo arnaf o bob to;
'rwy'n dod, Oen Duw 'rwy'n dod.

Dof fel yr wyf, syrthiodd i'r llawr
bob cadwyn gref, 'rwyf finna'n nawr
yn eiddo i'r Gwaredwr mawr;
'rwy'n dod, Oen Duw 'rwy'n dod.

Dof fel yr wyf, caf brofi'n llawn
dy gariad - O anhraethol drawn! -
a chanaf mwyach am yr Iawn;
'rwy'n dod, Oen Duw, 'rwy'n dod.

CHARLOTTE ELLIOTT 1789-1871
cyf ELIZA EVANS, 1852-1920

Ctrl a Chlic

https://youtu.be/D1ymgtqfWUM?list=OLAK5uy_kF2VLoN-xKC-avgo5v4vaLaPnv-DALPZg

Agnus Dei (Dof fel yr wyf, `does gennyf fi) · Dafydd Iwan

Gweddi

Dduw hael, diolch i ti am siarad â ni.
Helpa ni i ymestyn allan am dy gariad,
ac i rannu'r cariad hwnnw ag eraill.
Amen.

(Gweddïau oddi ar wefan Roots Ecumenical Partnership)